Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

**Diffiniadau**

**Caiff cymhwysedd ar gyfer yr ynadaeth ei bennu ar y sail a yw'r ymgeisydd sydd i'w benodi (neu'r ynad sy'n gwasanaethu) naill ai'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n agos â gwaith y system cyfiawnder teuluol i'r fath raddau fel y gallai bod risg canfyddiadol, neu real o wrthdaro buddiannau, rhagfarn, neu o danseilio annibyniaeth y farnwriaeth, pe cânt eu penodi/caniatâd i barhau i wasanaethu. Hyd yn oed lle nad yw anghymhwysedd yn absoliwt, bydd amlder unrhyw gyswllt â phartïon neu asiantaethau (gan gynnwys cyfeillgarwch agos neu berthnasoedd teuluol) a allai beri risg wirioneddol neu ymddangosiadol i annibyniaeth y farnwriaeth pan fo unigolion neu asiantaethau penodol yn ymddangos gerbron y llys, yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch achosion unigol. Mewn rhai achosion penodol, gall fod yn angenrheidiol i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol gael cyfarwyddyd gan yr Uwch Farnwr Llywyddol a/neu'r Arglwydd Ganghellor ynghylch cymhwysedd ymgeisydd i'w benodi/ynad sy'n gwasanaethu i barhau yn y swydd. Pan ddigwydd hyn, bydd penderfyniad y Prif Farnwr Llywyddol / Arglwydd Ganghellor yn derfynol.**

**Yn y cyfarwyddyd hwn, gall yr 'ardal panel teulu' y mae'r Ynad wedi'i aseinio iddi gynnwys mwy nag un 'Ardal Cyfiawnder Lleol'. Os oes gennych unrhyw ymholiad ynghylch cymhwysedd daearyddol, dylid ceisio cyngor gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer yr ardal berthnasol.**

Lle cyfeirir yn y cyfarwyddyd hwn at briod, partner sifil, partner neu berthnasau agos, bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol:

- **Priod/partner sifil/partner** – unrhyw unigolyn sydd â pherthynas barhaus â'r ymgeisydd, p'un a ydynt yn byw gyda'i gilydd fel cwpl priod neu bartneriaid sifil ai peidio.
- **Perthnasau agos** – tad, mam, mab, merch, brawd, chwaer, tad-yng-nghyfraith, mam-yng-nghyfraith, mab-yng-nghyfraith, merch-yng-nghyfraith, brawd-yng-nghyfraith, chwaer-yng-nghyfraith, neu lysblentyn, neu unigolion sydd ag unrhyw un o'r perthnasau hynny gyda phartner. Mae hyn yn cynnwys perthnasau drwy fabwysiadu.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i ymgeiswyr neu ynadon yn y llys teulu.

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr Asiantaeth Fabwysiadu (gweler yr adran ar Ofalwyr Maeth)** | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth |
| **Oedolion Priodol** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau<br><br>Serch hynny, dylai ynadon gadw mewn cof y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau a datgan unrhyw fuddiant posibl i'r partïon. Dylid gofyn i'r partïon a oes ganddynt wrthwynebiad. Os cyflwynir gwrthwynebiad rhesymegol, yna dylai'r ynad ymwrthod rhag gwrando'r achos. |
| **Beili** | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bargyfreithwyr (gan gynnwys Cyfreithwyr sy'n Eiriolwyr)** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ddylai ynadon sy'n gweithio fel bargyfreithwyr ymgymryd â gwaith eirioli mewn unrhyw gapasiti proffesiynol a allai greu gwrthdaro neu ymddangosiad o ragfarn gyda'u rôl fel ynad. Ni ddylent ymwneud neu gynghori ar achosion sydd wedi neu sy'n debygol o ddod gerbron y llys teulu maent wedi'u haseinio iddo, neu mewn unrhyw apêl yn ymwneud ag achos o'r fath. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheolwyr Gofal** (yn ymwneud â chyfrifoldeb dros droseddwyr ifanc neu droseddwyr sy'n oedolion) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth. |
| **Gwarcheidwaid Plant (CAFCASS neu warcheidwaid plant annibynnol)** | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth |
| **Cyngor ar Bopeth** (gwirfoddolwr neu gyflogai) | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol asesu natur y gwaith a wneir a'r tebygolrwydd o gyswllt â'r rhai sy'n ymddangos gerbron y llys. Bydd Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn rhoi cyngor i ynadon ynghylch pa mor briodol fyddai iddynt wrando ar achosion penodol. Lle y gwneir gwaith sylweddol, gellir lliniaru unrhyw wrthdaro posibl drwy sicrhau bod yr ynad yn eistedd mewn ardal panel teulu gwahanol i lle maent yn gweithio/gwirfoddoli. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweision Sifil (gan gynnwys gweithwyr GLITEF a swyddfeydd cysylltiedig eraill y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys y Swyddfa Farnwrol a chyrff Gweithredol eraill y Llywodraeth)** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ddylent eistedd ar unrhyw achos sy'n ymwneud ag adran llywodraeth ganolog neu asiantaeth y maent yn gweithio iddi (ac eithrio'r Gwasanaeth Cynnal Plant)<br><br>Ni chaniateir i staff GLITEF, gan gynnwys Cynghorwyr Cyfreithiol a Thywyswyr Llys/Clercod Llys sy'n gweithio yn y llysoedd ynadon, weithio yn yr un ardal ag y maent yn gwneud cais i fod yn ynad neu eistedd ynddi.<br><br>Ni ellir penodi staff gweinyddol sy'n gweithio mewn Canolfannau Gwasanaethau'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd i'r un Ardal Cyfiawnder Lleol neu ardal panel teulu ac y maent yn gweithio.<br><br>Dim ond os oes gwrthdaro clir y bydd unrhyw briod, partner sifil a phartner yn gwneud ymgeisydd/ynad yn anghymwys. |
| **Staff Canolfan Gyswllt Plant** (gweithwyr a gwirfoddolwyr) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth a/neu wirfoddol. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynghorwyr** (etholedig – pob haen o lywodraeth leol, gan gynnwys cynghorau plwyf) | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Yn unol ag adran 41 Deddf y Llysoedd 2003 ni ddylai ynadon eistedd ar achosion yn y llys teulu sy'n ymwneud â'r awdurdod lleol y maent yn aelod etholedig ohono. Bydd hyn yn cynnwys achosion yr ymdriniwyd â nhw gan y panel teulu y mae'r awdurdod lleol yn barti iddynt. Os oes angen cyngor ar ynadon ynghylch priodoldeb eistedd ar unrhyw achosion unigol, dylent siarad â Chadeirydd y Fainc, yr Uwch Reolwr Cyfreithiol neu'r cynghorydd cyfreithiol.<br><br>Bydd angen i Bwyllgorau Ymgynghorol asesu dichonoldeb penodi aelod o awdurdod lleol i'r panel teulu lle gall eu hawdurdod gyflwyno achosion cyfraith gyhoeddus, yn seiliedig ar asesiad o arferion rhestru llysoedd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfreithwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron ac Erlynwyr Cyswllt** Mae'n cynnwys aseswyr annibynnol sy'n gweithio i Wasanaeth Erlyn y Goron ac sy'n rhoi cyngor, er enghraifft, ar ddelio â chwynion am brosesau Gwasanaeth Erlyn y Goron. | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogeion Gwasanaeth Erlyn y Goron** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth |
| **Swyddogion Lles Addysg** | ✓ | | | ✓ | ✓ | |
| **Tystion arbenigol yn y llys teulu**<br>(heb fod yn rhestr gyflawn e.e. seicolegydd, seiciatrydd, aseswyr teuluol) | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ddylai ynadon dderbyn cyfarwyddiadau gan bartïon sy'n ymddangos:<br>• o fewn unrhyw haen o lys teulu yn eu hardal panel teulu eu hunain;<br>• o fewn unrhyw lys ynadon yn ardal eu panel teulu<br>• cynorthwyo unrhyw barti neu adran o'r llywodraeth, yn ardal y panel teulu lle maent yn gwasanaethu |
| **Gwasanaeth Cyfryngu Teuluol** (cyfryngwyr a chyflogeion) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth neu fusnes. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofalwyr Maeth** (Awdurdod lleol ac asiantaeth breifat) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud ag ardal yr Awdurdod Lleol maent yn gysylltiedig â hi. |
| **Awdurdodau Iechyd** (cyflogai) | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Rhaid i ynadon beidio ag eistedd ar unrhyw achos sy'n gysylltiedig â'u cyflogwr. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lluoedd EF** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr allu rhoi sicrwydd i'r pwyllgor ymgynghorol nad ydynt yn debygol o gael eu hanfon y tu allan i Gymru a Lloegr hyd y gellir rhagweld.<br><br>Os caiff ynadon sy'n gwasanaethu yn Lluoedd EF eu hanfon i leoliad arall o fewn Cymru a Lloegr, bydd y cyfarwyddiadau cyffredinol ar drosglwyddiadau yn berthnasol. Os cânt eu hanfon dramor, rhaid eu trin â chydymdeimlad; y disgwyliad cyffredinol yw y rhoddir iddynt ganiatâd i fod yn absennol. Dylid cysylltu â Thîm Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol os oes angen cyngor ynghylch unrhyw achosion arbennig/anarferol.<br>Gall unrhyw briod, partner sifil a phartner fod yn anghymwys os ydynt yn bwriadu symud gyda'r aelod sy'n gwasanaethu i leoliad arall. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfieithwyr ar y Pryd** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Rhaid i ynadon beidio â gweithredu fel cyfieithwyr ar y pryd:<br>• o fewn unrhyw haen o lys teulu yn eu hardal panel teulu eu hunain;<br>• o fewn unrhyw lys teulu yn ardal eu panel teulu<br>• cynorthwyo unrhyw barti neu adran o'r llywodraeth, yn ardal y panel teulu lle maent yn gwasanaethu |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogeion Awdurdod Lleol** (heb gynnwys athrawon a gweithwyr cymdeithasol) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ddylai ynadon eistedd ar achosion sydd gerbron y llys teulu sy'n ymwneud â'r awdurdod lleol y maent yn gweithio iddo. Bydd hyn yn cynnwys achosion yr ymdriniwyd â nhw gan y panel teulu y mae'r awdurdod lleol yn barti iddynt. Os oes angen cyngor ar ynadon ynghylch priodoldeb eistedd ar unrhyw achosion unigol, dylent siarad â Chadeirydd y Fainc, yr Uwch Reolwr Cyfreithiol neu'r cynghorydd cyfreithiol.<br><br>Bydd angen i Bwyllgorau Ymgynghorol asesu dichonoldeb penodi cyflogai awdurdod lleol i'r panel teulu lle gall eu hawdurdod gyflwyno achosion cyfraith gyhoeddus, yn seiliedig ar asesiad o arferion rhestru llysoedd. |
| **Byrddau Diogelu Plant Lleol** | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth neu fusnes. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeillion Mackenzie** | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant (e.e. doctoriaid, nyrsys, cwnselwyr, seiciatryddion, seicolegwyr, cynghorwyr seicotherapiwtig ayb.)** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth neu fusnes. |
| **Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Cymru** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br>Dylid penodi ynadon i banel teulu gwahanol i'r etholaeth dan sylw.<br>Ni ddylai ynadon sydd wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol neu'n anffurfiol fel ymgeiswyr arfaethedig eistedd yn yr un ardal panel teulu â'r etholaeth dan sylw hyd nes bydd canlyniad yr etholiad yn hysbys.<br>Os cânt eu hethol, rhaid iddynt wneud cais i drosglwyddo i ardal panel teulu arall neu, os nad yw hynny'n bosibl, ymddiswyddo neu adael y rhestr weithredol (a gallant ofyn i'w henw gael ei gynnwys ar y rhestr atodol). |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweinidogion Crefydd** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br>Gellir rheoli unrhyw wrthdaro posibl drwy sicrhau bod yr ynad yn eistedd mewn ardal panel teulu wahanol i'r un y maent yn gweithio ynddi. Pan fydd ymgeisydd yn weinidog crefydd, neu pan fydd ynad yn dod yn weinidog crefydd, rhaid iddynt sicrhau nad yw eu dyletswyddau bugeiliol yn gwrthdaro â dyletswyddau ynad. Os bydd Pwyllgorau Ymgynghorol yn dymuno gwneud achos dros wyro oddi wrth y cyfarwyddyd hwn, rhaid iddynt ymgynghori â'r esgob, neu unrhyw awdurdod cyfatebol, i gael cytundeb i'r penodiad cyn ceisio caniatâd gan yr Arglwydd Brif Ustus (a'r Arglwydd Ganghellor, lle bo'n briodol). Dylid cysylltu â Thîm Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol am gyngor wrth ymdrin ag unrhyw achosion o'r fath. |
| **Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol** | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth<br><br>Yn gyffredinol, mae'r un amodau yn berthnasol i aelodau'r teulu a pherthnasau agos yn unig, nid perthnasau eraill (ond ystyriwch bob achos yn unigol). |

| **Galwedigaeth/Gweithgarwch** | **Anghymwys i gael eu penodi** | **Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm** | **Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth** | **Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio** | **Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn** | **Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NSPCC** neu elusennau plant tebyg eraill (Cyflogai) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth<br><br>Pan fydd gan yr ynad unrhyw gyfrifoldeb cyflogaeth yn genedlaethol, rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol asesu dichonoldeb penodi i'r panel teulu, a rhaid i'r ynad beidio â gwrando ar unrhyw fater lle mae eu cyflogwr yn barti i'r achos. |
| **Asiant Gwleidyddiaeth Plaid** (llawn amser/cyflogedig) | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth. |
| **Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth. |
| **Partneriaethau'r Heddlu a'r Gymuned** neu **Grwpiau Ymgysylltu'r Heddlu â'r Gymuned** (aelod) | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | ✓ | | | ✓ | ✓ | Y disgwyliad yw y bydd ynadon yn ymddiswyddo'n llwyr o swydd farnwrol os cânt eu hethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) – neu os cânt eu penodi'n Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd – ac ni chânt eu cynnwys ar y rhestr atodol. Rhaid i ynadon gymryd absenoldeb â chaniatâd o'r fainc os ydynt yn sefyll mewn etholiad ar gyfer swydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd.<br>Mae'r un amodau'n berthnasol i unrhyw briod, partner sifil, partner a pherthnasau agos. |
| **Panelau Heddlu a Throsedd** (aelod) | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Dylai ynadon hysbysu Ysgrifennydd eu Pwyllgor Ymgynghorol/Uwch-reolwr Cyfreithiol os ydynt yn derbyn aelodaeth o Banel yr Heddlu a Throsedd (PCP).<br><br>Dylai ynadon geisio cyngor gan eu Cadeirydd Mainc a/neu Uwch-reolwr Cyfreithiol os gofynnir iddynt gyflawni dyletswydd fel aelod o Banel yr Heddlu a Throsedd a allai beri gwrthdaro â'r canfyddiad o'u hannibyniaeth farnwrol. |
| **Yr Heddlu** (cyflogai sifil) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddog Heddlu** | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth.<br><br>Mae amodau llai cyfyngol yn berthnasol i aelodau'r teulu a pherthnasau agos yn unig, nid perthnasau eraill (ond ystyriwch bob achos yn unigol – yn enwedig os yw'r unigolyn yn gweithio mewn rôl amddiffyn plant fel rhan o'u cyfrifoldebau cyflogaeth). |
| **Swyddog Heddlu Gwirfoddol** | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth<br><br>Yn gyffredinol, mae'r un amodau yn berthnasol i aelodau'r teulu a pherthnasau agos yn unig, nid perthnasau eraill (ond ystyriwch bob achos yn unigol). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Carchardai a Gwasanaethau Contract Hebrwng Carcharorion** (swyddogion carchar a phob gweithiwr arall sy'n gweithio mewn sefydliadau cosbol neu sy'n cludo carcharorion) | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br>Dylid sicrhau nad yw'r ynad yn gweithio mewn carchar neu'n hebrwng carcharorion mewn carchar yn yr ardal panel teulu mae'r ynad wedi'i haseinio iddi.<br>Mae'r un rheolau'n berthnasol i bob priod, partner sifil a phartner. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ditectifs Preifat** (boed yn hunangyflogedig neu'n gweithio i asiantaeth) | ✓ | | | | | |
| **Y Gwasanaeth Prawf** (y rhai sydd mewn cyswllt uniongyrchol â throseddwyr) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth. |
| Cwnselydd o Relate **(neu elusennau tebyg)** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth. |
| **Y Samariaid** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Bydd ynadon yn cael cyngor ynghylch eistedd ar achosion penodol. |
| **Siryfion** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni chaiff ynadon eistedd mewn ardal Panel Teulu lle maent yn Siryf.<br><br>Ni chaiff ynadon wasanaethu fel Cadeirydd y Fainc tra maent yn Siryf. |
| **Gweithwyr Cymdeithasol** (gweithwyr awdurdod lleol a gweithwyr cymdeithasol annibynnol) | | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes eu cyfrifoldebau cyflogaeth. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfreithwyr** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni chaiff cyfreithiwr na phartneriaid y cwmni ymddangos gerbron ynadon a bennir i'r un ardal panel teulu (gweler adran 38 Deddf Cyfreithwyr 1974 – yn agor mewn porwr gwe).<br><br>Ni ddylai ynadon y mae eu priod/partner sifil/partner yn gyfreithiwr eistedd ar unrhyw achos sy'n ymwneud â'r cwmni hwnnw.<br><br>Ni ddylai ynadon sy'n gweithio mewn cwmni cyfreithwyr (neu y mae eu priod neu bartner yn gweithio yn y cwmni hwnnw) eistedd ar unrhyw achos sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r cwmni hwnnw.<br><br>Ni chaiff ynadon sydd â pherthynas agos sy'n gweithio i gwmni cyfreithwyr eistedd ar unrhyw achos lle y mae'r perthynas wedi ymddangos neu wedi rhoi cyngor. Os yw'r perthynas yn ymddangos yn rheolaidd yn y llys ar ran y cwmni, dylai'r ynad wneud cais i drosglwyddo i ardal panel teulu arall. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Athrawon (Awdurdod Lleol neu a gyflogir yn breifat fel arall)** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Gellir aseinio athrawon i ardal panel teulu lle mae'r ysgol wedi'i lleoli, ond rhaid i ynadon beidio ag eistedd ar unrhyw achos sy'n ymwneud â'r awdurdod lleol sy'n eu cyflogi neu blentyn sy'n mynychu'r ysgol y maent yn gweithio ynddi. Lle gallai fod gwrthdaro buddiannau fel arall, os oes angen cyngor ar ynadon ynghylch priodoldeb eistedd ar unrhyw achos unigol, dylent siarad â Chadeirydd y Fainc, yr Uwch Reolwr Cyfreithiol neu'r cynghorydd cyfreithiol. |

| Galwedigaeth/Gweithgarwch | Anghymwys i gael eu penodi | Cymhwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neu mae amodau ynghlwm | Cyn-weithwyr yn anghymwys am ddwy flynedd ar ôl gadael yr alwedigaeth | Ni ellir penodi priod, partner sifil neu bartner i'r ardal panel teulu lle mae'r gweithiwr yn gweithio | Dylai ynadon ymddiswyddo neu drosglwyddo i ardal panel teulu arall os yw eu priod, partner sifil neu bartner yn gyflogedig yn un o'r galwedigaethau hyn | Canllawiau pellach ar gymhwysedd / amodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Panel/Tîm Troseddwyr Ifanc / Panel Cyfeirio Troseddwyr Ifanc** (aelod, gwirfoddolwr neu gyflogai). Mae hyn hefyd yn cynnwys gweithwyr **Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes cyfrifoldebau eu Panel Troseddwyr Ifanc/Tîm Troseddwyr Ifanc. |
| **Panelau Cyfiawnder Adferol** | | ✓ | | | | Yn gyffredinol maent yn gymwys.<br><br>Ni ellir eu haseinio i banel teulu sy'n ymwneud â maes cyfrifoldebau eu Panel Troseddwyr Ifanc/Tîm Troseddwyr Ifanc. |